Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

BMA Cymru Wales

12 Rhagfyr 2025

Annwyl gyfeillion

Yn dilyn cwblhau'r negodiadau rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a GPC Cymru yn llwyddiannus, rydym yn ysgrifennu atoch ar y cyd i roi diweddariad ichi ar ganlyniad ein trafodaethau am y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ar gyfer 2025-26.

Yn unol â'r cytundeb, sydd i'w weld yn Atodiad A, bydd cyfanswm o £41.9 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn meddygaeth deulu eleni. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys £37.9 miliwn mewn buddsoddiad newydd a pharhad o £4 miliwn o gyllid ar gyfer capasiti ychwanegol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Cynnydd o 4% yn yr elfen cyflog meddygon teulu o'r contract, yn unol ag argymhelliad y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion (DDRB). Am y chweched flwyddyn yn olynol, bydd cyllid yn cael ei ddarparu er mwyn ei gwneud yn bosibl i roi'r un cynnydd mewn cyflog i holl staff practisau. Gwneir hyn er mwyn cydnabod cyfraniad gwerthfawr tîm ehangach y practisau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae cyfanswm y buddsoddiad rheolaidd hwn yn cyfateb i £15.9m.
- Dyfarniad cyllid rheolaidd pellach o £2m y cytunwyd arno ar gyfer cefnogi practisau i fodloni treuliau busnes parhaus.
- £20 miliwn o gyllid rheolaidd i helpu i sefydlogi practisau ar unwaith a chyflawni'r mandad y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn hon er mwyn bod yn barod ar gyfer cam nesaf y diwygio.
- Parhad o £4m o gyllid ar gyfer capasiti ychwanegol yn 2025-26.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r cytundeb hwn yn sicrhau cynnydd o 5.8% yn y cyllid rheolaidd ar gyfer y contract GMS o 2026-27, gan ddarparu sicrwydd ariannol i

bractisau fuddsoddi mewn ehangu'r gweithlu, ailgynllunio gwasanaethau a chymorth gweinyddol. Mae hyn yn sail i'r rhaglen drawsnewid cymunedol-o'r-cychwyn, dan arweiniad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar gyfer darparu a datblygu rhagor o ofal a gwasanaethau mewn cymunedau lleol yn agosach at gartrefi pobl. Bydd hefyd yn sicrhau bod meddygon teulu yn chwarae rhan ganolog i ddatblygu modelau gofal integredig.

Mae'r gwaith trawsnewid cymunedol-o'r-cychwyn yn nodwedd ganolog o'r cytundeb eleni. Bydd y cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf yn galluogi meddygon teulu i gymryd rhan weithredol yn y rhaglen arloesol hon, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer ail-lunio gwasanaethau gofal sylfaenol ar sail anghenion cymunedau lleol.

Rydym wedi cytuno i gynyddu'r premiwm partneriaeth, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae meddygon teulu sy'n bartneriaid yn ei chwarae i arwain practisau gwydn. Bydd hyn yn chwarae rhan uniongyrchol i gefnogi'r ymdrechion i gadw clinigwyr profiadol, gan olygu bod partneriaeth yn dod yn fwy deniadol a chynaliadwy. Drwy fuddsoddi yn ein harweinwyr, bydd yn helpu i sicrhau dilyniant mewn gofal ac yn cryfhau dyfodol meddygaeth deulu ar gyfer cymunedau ledled Cymru. At hynny, bydd cynnydd yn ad-daliadau'r Datganiad o Hawliau Ariannol (SFE) ar gyfer salwch, absenoldeb rhiant ac yswiriant meddygon sydd wedi'u hatal dros dro yn rhoi mwy o sefydlogrwydd ariannol i bractisau, gan sicrhau eu bod yn gallu parhau i gefnogi eu timau a chynnal gofal cleifion o ansawdd uchel yn ystod cyfnodau o absenoldebau staff.

Rydym yn cymryd camau i werthuso'r safonau mynediad, a fydd yn helpu pobl i gael apwyntiadau pan fydd arnynt eu hangen. Bydd gweithgor pwrpasol yn adolygu'r safonau hyn yn drwyadl, ac yn eu cryfhau, a bydd y gwelliannau yn dod yn weithredol o fis Ebrill 2026. Mae'r dull cydweithredol hwn yn dangos ymrwymiad clir i wneud gwasanaethau meddygon teulu yn fwy cadarn ac ymatebol i bob cymuned.

Mae trawsnewid digidol yn parhau i fod yn ganolog i'n huchelgeisiau ar gyfer moderneiddio gofal cleifion. O ddechrau 2026, bydd pobl yn gallu gweld elfennau ychwanegol o'u cofnod iechyd drwy Ap GIG Cymru. Byddwn yn cydweithio'n agos i ddatblygu ymhellach welliannau o ran trefnu apwyntiadau a darparu canlyniadau

profion drwy Ap GIG Cymru, ac i roi’r gwelliannau hyn ar waith. Gwneir hyn gan sicrhau bod y newidiadau yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a sensitifrwydd clinigol. O ganlyniad, bydd yn haws i bawb reoli eu hiechyd ac i ryngweithio â’u practis yn ddigidol.

Bydd practisau yn cynnal ac yn dilysu cofrestrau ar gyfer carfanau eiddilwch a chydafiacheddau cymhleth risg uchel, yn ogystal â chofrestrau iechyd cynhwysiant. Mae hyn yn sicrhau bod gofal rhagweithiol a theg yn cael ei flaenoriaethu i’r rhai sydd fwyaf mewn angen, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant mewn gofal sylfaenol.

Er mwyn gwella diogelwch a chanlyniadau cleifion ymhellach, bydd rhagor o gwestiynau yn cael eu cyflwyno i’r Pecyn Cymorth Hunanasesiad Ymarfer Llywodraethiant Clinigol. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth a chysondeb mewn adolygiadau strwythuredig o feddyginiaethau, gan gefnogi practisau i ddarparu safonau uchel o ofal clinigol.

Ar gyfer gofal diabetes, rydym yn rhoi trefniadau ar waith a fydd yn golygu y bydd yn bosibl i ddata cyfanredol ar lefel practis gael eu rhannu’n awtomatig wrth i’r wyth proses gofal diabetes hanfodol gael eu cwblhau. Bydd hyn yn cefnogi mynediad teg at ofal diabetes o ansawdd uchel, gan sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu a’u rhoi ar waith ledled Cymru.

Mae Atodiad A yn cynnwys manylion pellach y newidiadau yn ystod y flwyddyn i’r contract GMS er mwyn ysgogi gwelliannau mewn meddygaeth deulu er budd y cyhoedd, meddygon teulu a’r system iechyd a gofal yn ehangach.

Bydd cyfres o weithgorau yn cael eu sefydlu hefyd i hyrwyddo gwelliannau parhaus ac ar gyfer y dyfodol. Mae’r rhain yn cynnwys gwelliannau yn y safonau mynediad, y ddarpariaeth gwasanaethau mewn canghennau a lleoliadau eilaidd, y trefniadau ar gyfer atal diabetes, amser dysgu gwarchodedig, y fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid GMS a’r trefniadau ar gyfer meddygon fferyllol. Dylid nodi bod yr adolygiad o’r fformiwla ar gyfer dyrannu’r swm craidd yn arbennig o arwyddocaol – hwn fydd yr asesiad cynhwysfawr cyntaf ers rhagor nag 20 mlynedd. Mae’r adolygiad hwn yn


gyfle nodedig i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg a'i fod yn adlewyrchu anghenion presennol practisau a chymunedau ledled Cymru. Mae cynnwys adolygiad o'r trefniadau ar gyfer meddygon fferyllol yn arwydd pellach o'r ymrwymiad i sicrhau bod pob agwedd ar feddygaeth deulu yn ymateb i anghenion lleol.

Yn dilyn cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 12 Rhagfyr 2025, mae Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Gyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol 2013 yn cael eu diwygio, fel y bo'n briodol, i adlewyrchu'r canlyniad y daethpwyd iddo. Bydd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 hefyd yn cael eu diwygio maes o law i roi effaith i elfennau o'r cytundeb hwn yn ôl yr angen.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau y gweithredir yn gyflym, a bydd hyn yn cynnwys llunio canllawiau ar gyfer y practisau.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach am y canllawiau neu'r newidiadau, cysylltwch â'ch bwrdd iechyd.

Yn gywir



Paul Casey

Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Llywodraeth Cymru



Elaine Lorton

Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol, Y Gymuned ac Iechyd Meddwl

GIG Cymru



Gareth Oelmann

Cadeirydd

GPC Cymru